



## Tai Amlfeddiannaeth (TA) a Deddf Tai 2004

### **HYSBYSIAD CYHOEDDUS MEWN PERTHYNAS Â'R CYNLLUN TRWYDDEDU YCHWANEGOL**

CYFLWYNO CYNLLUN TRWYDDEDU YCHWANEGOL YN WARD GYMUNEDOL CATHAYS, CAERDYDD

#### **Hysbysiad**

Rhoddir hysbysiad drwy hyn fod Cyngor Dinas Caerdydd wedi cadarnhau dynodi cynllun trwyddedu ychwanegol mewn perthynas â thai amlfeddiannaeth yn Ward Gymunedol Cathays. Gelwir y cynllun hwn yn (Cynllun Trwyddedu Ychwanegol Tai Amlfeddiannaeth Cyngor Dinas Caerdydd 2014) ("Y Cynllun"). Mae cadarnhau'r dynodiad yn unol ag Adrannau 56 i 60 Deddf Tai 2004 ("y Ddeddf") a rheoliad 9 Rheoliadau Trwyddedu a Rheoli Tai Amlfeddiannaeth a Thai Eraill (Darpariaethau Amrywiol) 2006.

Gwnaethpwyd y dynodiad yng Nghyfarfod Cabinet y Cyngor ar 17 Medi 2015. Mae Cymeradwyaeth Gyffredinol Deddf Tai 2004 (Trwyddedau Tai Amlfeddiannaeth Ychwanegol) (Cymru) 2007, a ddaeth i rym ar 13 Mawrth 2007 yn berthnasol i'r dynodiad hwn.

Daw'r Cynllun i rym o 1 Ionawar 2016 ac oni bai ei fod yn cael ei ddirymu ymlaen llaw daw'r Cynllun i ben ar 1 Ionawar 2021. Mae'r Cynllun yn berthnasol i'r holl Dai Amlfeddiannaeth (Tai Amlfeddiannaeth) yn yr ardal a nodir uchod ac eithrio'r rheiny a eithrir gan adrannau perthnasol y Ddeddf.

Dylai unrhyw landlord, person sy'n rheoli neu denant o fewn y Ddinas ofyn am gyngor gan Wasanaeth Gorfodi Tai Cyngor Dinas Caerdydd ynglŷn â pha eiddo yr effeithir arno gan Gynllun Trwyddedu Ychwanegol Ward Gymunedol Cathays.

Bydd rhaid i berson sydd â rheolaeth dros, neu sy'n rheoli, TA yn yr ardal ddynodedig ymgeisio am drwydded gan Gyngor Dinas Caerdydd.

**Mae methu ag ymgeisio am drwydded yn drosedd o dan Adran 72(1) Deddf Tai 2004 a gellir dirwyo person hyd at £20,000. Yn ychwanegol efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu hyd at 12 mis o rent a gasglwyd yn ystod y cyfnod yr oedd yr eiddo heb drwydded.**

Cyn i gais gael ei ystyried rhaid iddo roi manylion penodol a rhaid i'r ffi angenrheidiol fod ynghlwm wrtho. I ofyn am ffurflen gais yn ysgrifenedig cysylltwch â Gorfodi Tai, Cyngor Dinas Caerdydd, Neuadd y Ddinas, Caerdydd, CF10 3ND neu dros y ffôn ar 029 2087 1762 neu drwy e-bostio [PrivateSectorHousing@caerdydd.gov.uk](mailto:PrivateSectorHousing@caerdydd.gov.uk)  
Mae copi o'r Cynllun ar gael i'w archwilio yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, CF10 3ND. Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael ar wefan y cyngor  
<https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Busnes/Trwyddedau/Tai-amlfeddiannaeth/Documents/Cymraeg/HMO%20Licensing%20Guidance%20doc%20revised%20Nov%202014%20v2%20-%20CYMRAEG.pdf>

